AEA Cymru yn annog ymgeiswyr y Cynulliad Cenedlaethol i ymrwymo i herio cam-drin pobl hŷn

Caerdydd 30 Medi 2015, Heddiw mae mudiad Action on Elder Abuse Cymru (AEA Cymru) yn cyhoeddi ei faniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016, gan ofyn i ymgeiswyr ymrwymo i sicrhau bod cam-drin pobl hŷn yn cael ei herio a'i drin fel trosedd, a bod cefnogaeth ddigonol ar gyfer dioddefwyr.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2015, cafodd Action on Elder Abuse 21,267 o alwadau i'w llinell gymorth o bob rhan o wledydd Prydain. Roedd y galwadau'n dod gan ddioddefwyr, perthnasau, gofalwyr ac ymarferwyr a oedd wedi dioddef cam-drin, wedi bod yn dyst iddo neu wedi ei amau.

"Rydyn ni'n gwybod bod cam-drin pobl hŷn yn digwydd heb i neb adrodd amdano yn aml iawn" meddai cyfarwyddwr AEA Cymru Rachael Nicholson. "P'un a yw'r cam-drin yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol, yn ariannol neu'n esgeulustod, mae'n hollbwysig sicrhau nad yw troseddau yn erbyn pobl hŷn yn cael eu hanwybyddu, a bod yr heddlu nid yn unig yn ymchwilio iddynt, ond yn eu cyflwyno hefyd i Wasanaeth Erlyn y Goron i'w hystyried. Dangosodd data ar gyfer 2013-14 wedi'i gasglu gan y Comisiynydd Pobl Hŷn bod 18,931 o adroddiadau i'r heddlu wedi bod am droseddau yn erbyn pobl hŷn, ond mai dim ond 13% o'r rhain a arweiniodd at arestio. Mae angen rhoi ystyriaeth ddwys a brys i'r gwaith o sicrhau bod y rhai sy'n cam-drin neu'n esgeuluso pobl hŷn yn cael eu herlyn ar unwaith.

Mae maniffesto AEA Cymru yn gofyn am ymrwymiad gan y pleidiau a'r ymgeiswyr i wneud y canlynol:-

1. **Diogelu'r holl bobl hŷn drwy sicrhau bod ganddynt fynediad at wasanaethau gofal lle mae'r staff yn cael eu talu'n deg ac wedi'u hyfforddi a'u rheoli'n briodol.**

2. **Sicrhau bod y pedwar heddlu yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith o ymchwilio i honiadau o gam-drin a throseddau yn erbyn pobl hŷn, ac yn trosglwyddo'r rhain i Wasanaeth Erlyn y Goron i gael eu hasesu.**

3. **Sicrhau bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymrwymo i adolygu pob achos o gam-drin pobl hŷn ac yn eu herlyn ar y lefel briodol.**

Rydym yn gofyn i bob plaid ac ymgeisydd sy'n sefyll etholiad wneud addewidion yn dangos sut y gallant gyfrannu at y canlynol:

4. **Gwell ymwybyddiaeth o fater cam-drin pobl hŷn a'r cysylltiadau sydd rhyngddo â cham-drin domestig, ym mhob gwasanaeth cyhoeddus.**

5. **Ymrwymiad i sefydlu diffiniad statudol o droseddau yn erbyn pobl hŷn.**

"Er bod camau breision wedi bod o ran diogelu oedolion yng Nghymru, mae cam-drin pobl hŷn yn dal i fod yn rhywbeth cuddiedig" meddai Rachael Nicholson. "Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno grymoedd y flwyddyn nesaf a fydd yn helpu i ddiogelu pobl hŷn, ond mae'n anodd gwybod eto a fydd y Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion yn cael yr effaith sy'n ofynnol.

Ni ddylai'r un person hŷn fod yn byw mewn ofn na gorfod wynebu camdriniaeth. Rydyn ni'n gofyn i'r pleidiau ddweud beth fyddan nhw'n ei wneud, o fewn cyfyngiadau grymoedd y Cynulliad, i wella bywydau ein poblogaeth sy'n heneiddio."

I weld y maniffesto llawn neu i gael rhagor o wybodaeth am Action on Elder Abuse Cymru, cysylltwch â:

Rachael Nicholson
Cyfarwyddwr
Action on Elder Abuse Cymru
E-bost:rachaelnicholson@elderabuse.org.uk
Ffôn: 07496 663817

Ar gyfer ymholiadau'r wasg, cysylltwch ag:

Ella Marshall
Swyddog Cyfathrebu
E-bost:ellamarshallcoley@elderabuse.org.uk
Ffôn: 0208 835 9285

Neu ewch i wefan Action on Elder Abuse: www.elderabuse.org.uk

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion:

I gael rhagor o wybodaeth am y datganiad hwn, ffoniwch 020 8835 9283

1. Elusen ledled Prydain yw Action on Elder Abuse, ac mae ganddi bresenoldeb yn y pedair gwlad. Ei nod yw diogelu pobl hŷn ac atal camdriniaeth yn eu herbyn drwy godi ymwybyddiaeth am y materion, annog addysg a rhoi gwybodaeth a chefnogaeth gyfrinachol i'r rhai mewn angen. Mae'n gweithredu yr unig linell gymorth ledled Prydain sy'n canolbwyntio'n benodol ar y mater yma. Mae cymorth a gwybodaeth ar gael drwy ffonio 080 8808 8141 o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00am a 5.00pm. Gwefan: www.elderabuse.org.uk

2. Yn 2015, gydag arian o'r Gronfa Loteri Fawr, sefydlodd Action on Elder Abuse staff yng Nghymru i dynnu sylw at fater cam-drin pobl hŷn ac i'w herio. Rachael Nicholson yw Cyfarwyddwr AEA Cymru.

3. Mae cam-drin pobl hŷn yn cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol ac ariannol, ac esgeulustod. Yn aml gall fod yn drosedd, ond yn aml nid yw'n cael ei erlyn.